# Bwrlwm a'i broblem



Ysgrifennwyd gan
Flwyddyn 5 Mrs Davies
YGG Tirdeunaw

Ar greigres cwrel pell, nofiai grwban unig o'r enw Bwrlwm. Am ryw reswm, roedd ei deulu wedi ei adael ar ôl ac roedd yn chwilio am ffrind. Wrth nofio o gwmpas y cwrel lliwgar, hardd, gwelodd Bwrlwm Clec y cranc cas.



"Hei! Beth wyt ti'n gwneud yn nofio yn fy lle i?" cleciodd Clec yn gas.
Atebodd Bwrlwm mewn braw "O mae'n ddrwg gen i ond mae'r cwrel yn le dieithr i mi. Wyt ti'n gallu bod yn ffrind i mi?".
"Na, dwi ddim yn meddwl fy mod i am fod yn ffrind i ti! Rwyt ti'n edrych mor wahanol i'r crwbanod eraill!" cyfarthodd Clec. "Beth yn y byd mawr ddigwyddodd i ti?".




"Dwi i ddim yn gwybod yn iawn." mwmiodd Bwrlwm yn drist. "Mae'r peth yma sydd ar fy nghorff wedi bod gyda mi ers blynyddoedd. Gwelais lawer o bethau tebyg yn y môr dros amser ond maen't wedi cynyddu'n fawr yn ddiweddar."





Y gwir amdani oedd bod Bwrlwm y crwban wedi nofio i ganol tomen o blastig a daflwyd i'r môr ac oherwydd hyn, nid oedd ei gragen wedi tyfu'n iawn.


Cyfarfu Bwrlwm â nifer o gymeriadau diddorol wrth nofio. Yn anffodus, nid oedd yr un ohonynt am fod yn ffrind iddo am ei fod yn wahanol.






"Hei! Arhosa i ni!".
Clywodd Bwrlwm leisiau yn galw o'r dyfnder pell. Teimlai'n ddryslyd dros ben a nofiodd yn ei flaen.
"Dywedais i ti aros i ni!" gwaeddodd y llais.


O ganol y dŵr glas, ymddangosodd dri chymeriad anarferol yr olwg. Crwbanod oeddent hefyd.
Cafodd Bwrlwm dipyn o syndod bod rhywun am siarad ag ef. Teimlai ychydig yn ofnus hefyd am nad oedd neb wedi galw ar ei ôl fel hyn o'r blaen.




"Helo! Fy enw i yw Pî-po a dyma fy ffrindiau Trwper a Sheldon". Roedd Pî-po yn grwban dra siaradus ond swil iawn oedd ei ffrindiau. Roedd Bwrlwm wrth ei fodd i gwrdd â chrwbanod eraill a edrychai yn union yr un fath ag e.




Gyda'i gragen ddi-siâp, edrychai Sheldon fel Bwrlwm. Sylwodd Bwrlwm bod gan Trwper rhwyd ynghlwm wrth ei goes ac nid oedd yn gweithio. O ganlyniad i hen dun wedi rhydu ar y greigres cwrel, niweidiwyd cragen Pî-po hefyd.




Am wythnosau lawer, nofiodd Bwrlwm a'i ffrindiau newydd yn hapus o gwmpas y cwrel. Siaradodd y pedwar am effeithiau'r sbwriel yn y môr arnynt.




Un diwrnod, penderfynodd y crwbanod nofio i ardal newydd. Erbyn hyn, roedd y crwbanod yn ffrindiau pennaf ac yn treulio bob munud gyda'i gilydd. Synhwyrodd Sheldon a oedd yn grwban sensitive bod y cerynt yn wahanol y tro hwn a'i fod yn gryfach ar adegau. Roedd storm ar y ffordd.



Cyn pen dim, cafodd y pedwar drafferth mawr i nofio yn erbyn y cerynt cryf. Roeddent yn symud yn bellach o'r cwrel. "Gwnewch yn siwr ein bod i gyd yn aros gyda'n gilydd!" galwodd Pî-po.
Yn anffodus oherwydd blinder a'r cerynt cryf, golchwyd y pedwar crwban bach i'r lan wedi blino'n lân.



Daeth ferch fach o'r enw Lili o hyd i Bwrlwm a'i ffrindiau. Galwodd ar ei theulu.
"Dewch yma i weld beth rwyf i wedi dod o hyd iddo!"
"Beth yw e bach?" gofynnodd ei mam wrth iddi hi a gweddill teulu Wilson glosio at y darganfyddiad.
"Dwi'n meddwl mai crwbanod ydynt ond maen't i gyd yn edrych yn wahanol" dywedodd Hari, brawd Lili.



Sylweddolodd y teulu bod y sbwriel a daflwyd i'r môr wedi anafu a niwiedio'r crwbanod. Tynnodd Mr Wilson luniau ar ei ffôn a'u postio ar y wê. O ganlyniad i hyn roedd stori Bwrlwm a'i ffrindiau ar y newyddion.

